NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Crovalimab ar gyfer trin haemoglobwrina nosol ysbeidiol mewn pobl 12 oed a throsodd

20 Tachwedd 2024

Mae crovalimab (Piasky) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer haemoglobwrina nosol ysbeidiol mewn pobl 12 oed a throsodd sy'n pwyso 40kg neu fwy a:

- bod ganddynt haemolysis gyda symptomau clinigol yn awgrymu gweithgarwch uchel o'r afiechyd
- eu bod yn glinigol sefydlog ar ôl cael atalydd cydran 5 ategol am y 6 mis diwethaf o leiaf.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall PNH Support (contact@pnhuk.org) roi cyngor a chymorth i chi.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

NICE National Institute for Health and Care Excellence

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9483-0